**CYNGOR LLAWN**
**4 HYDREF, 2012**
**SIAMBR DAFYDD ORWIG**

## EITEM 11 – PERFFORMIAD CYNGOR GWYNEDD 2011/12

Cyflwyno diwygiadau arfaethedig y Pwyllgor Craffu Corfforaethol, yn ei gyfarfod ar 2 Hydref, 2012. (gweler trosodd)

**Tynnir sylw aelodau Cyngor Gwynedd at argymhellion y Pwyllgor Craffu Corfforaethol yn ei gyfarfod ar 02/10/12 ar gyfer newidiadau i Adroddiad Perfformiad Cyngor Gwynedd 2011/12.**

**Lle disgwylir gwybodaeth bellach, argymhellir fod unrhyw newidiadau yn cael eu cymeradwyo gan yr Aelod Cabinet, mewn ymgynghoriad gyda Chadeirydd y Pwyllgor Craffu.**

**Islaw yr argymhellion, nodir mân newidiadau eraill a wnaed i'r Adroddiad Perfformiad yn dilyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol.**

| **Argymhellion y Pwyllgor Craffu Corfforaethol 02/10/12** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Tud.** | **Cyfeirnod** | **Gwelliant** | **Argymhelliad y Pwyllgor Craffu (Cadeirydd – Y Cynghorydd Simon Glyn)** | **Ymateb (Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Dyfed Edwards)** |
| **14** | CGOE01 | Ymestyn y ddarpariaeth Galluogi i ddefnyddwyr Gwasanaeth Anabledd Dysgu ac Iechyd Meddwl.<br>250 o becynnau galluogi dwys yn cael eu darparu yng Ngwynedd; Cynnydd o 20%.<br>9,840 o oriau gofal cartref ar gyfartaledd yn cael eu darparu yng Ngwynedd sef lleihad o 2%. | Yn amodol ar gytundeb yr Aelod Cabinet, argymell newid y lliw i Ambr.<br><br>Angen deall faint ydi'r cynnydd, yna dylai'r AC bennu lliw i adlewyrchu hynny. | **Yn dilyn trafodaeth gyda swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol, argymhellir newid paragraff olaf y sylwadau i ddarllen fel a ganlyn: *"Mae'n ymddagos fod gostyngiad wedi bod yn yn nifer yr oriau gofal cartref sy'n cael eu darparu, i 9324, fodd bynnag, mae'r gwaith dadansoddi yn parhau er*** |

| **Argymhellion y Pwyllgor Craffu Corfforaethol 02/10/12** | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Tud.** | **Cyfeirnod** | **Gwelliant** | **Argymhelliad y Pwyllgor Craffu (Cadeirydd – Y Cynghorydd Simon Glyn)** | **Ymateb (Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Dyfed Edwards)** |
| | | | | ***mwyn adnabod y duedd.”*** **Awgrymir cadw’r lliw yn Wyrdd felly.** |
| **19** | Dim cyfeirnod | Gwasanaeth Yfory | Angen ychwaneg o wybodaeth e.e. faint yw’r bid, faint o ganran o’r angen a adnabuwyd yw’r bid. Ydio’n ddigonol i gwrdd â’r angen. | **Disgwylir gwybodaeth gan swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol.** |
| **23** | | Dangosyddion Swyddi Gwag | Dylid cyflwyno ffigyrau mwy diweddar na Mehefin 2011. | **Mae’r ffigyrau mwyaf diweddar sydd ar gael wedi eu cyflwyno yma.** |
| **84** | Add.11 | Llunio, datblygu a gweithredu rhaglen hyfforddi gynhwysfawr a phriodol ar gyfer holl weithlu ysgolion cynradd Gwynedd er mwyn cynyddu defnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. | Argymell newid i Ambr. | **Argymhellir newid lliw y gwelliannau hyn er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchiad cytbwys, teg a chywir o’r perfformiad.** |
| **84** | PSI05 | Cynllun Siarter Iaith Ysgolion yn seiliedig ar y Cynllun Ysgolion Iach a'r Cynllun Ysgolion Gwyrdd a'r Eco'Sgolion yn weithredol yn ysgolion cynradd Gwynedd. | Argymell newid i Ambr. | |

| Argymhellion y Pwyllgor Craffu Corfforaethol 02/10/12 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Tud.** | **Cyfeirnod** | **Gwelliant** | **Argymhelliad y Pwyllgor Craffu (Cadeirydd – Y Cynghorydd Simon Glyn)** | **Ymateb (Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Dyfed Edwards)** |
| **84** | PSI06 | Cynnal digwyddiad proffil uchel i godi ymwybyddiaeth o rol y gweithlu i ddylanwadu'n gadarnhaol ar ddefnydd cymdeithasol plant o'r Gymraeg. | Argymell newid i Ambr. | |
| **85** | PSI09 | Buddsoddi mewn cynllun cyfieithu cymunedol i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o'r Gymraeg. | Argymell newid i Ambr. | |
| **85** | PSI10 | Gweithredu'r Fframwaith Nodweddion Cymdogaethau Cymraeg Ffyniannus. | Argymell newid i Ambr. | |
| **88** | Dangosydd | Nifer o unedau preswyl ac arwynebedd tir ar gyfer cyflogaeth o fewn y drafft cyn adnau o’r Cynllun yn cyfarch gofynion lleol. | Angen nodi isod faint, a beth y mae hyn yn ei olygu (h.y. beth yw’r oblygiadau). *Nifer o unedau tai wedi cymeradwyo. Ond bydd angen cadw golwg ar hyn ar ol cyhoeddiad canlyniadau Cyfrifiad 2011 (i’w cyhoeddi canol 2012), a rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd canol 2011 (i’w cyhoeddi yn* | **Disgwylir gwybodaeth berthnasol.** |

| Argymhellion y Pwyllgor Craffu Corfforaethol 02/10/12 | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Tud.** | **Cyfeirnod** | **Gwelliant** | **Argymhelliad y Pwyllgor Craffu (Cadeirydd – Y Cynghorydd Simon Glyn)** | **Ymateb (Aelod Cabinet – Y Cynghorydd Dyfed Edwards)** |
| | | | *2013).* | |
| **Addasir y tabl trosolwg perfformiad yn sgîl unrhyw newidiadau i'r lliwiau.** | | | | |

| Mân newidiadau eraill y cytunwyd eu gwneud yn dilyn sylwadau'r Pwyllgor Craffu Corfforaethol. | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **31** | SMG07 | Bydd 195 o unigolion a chyflwr iechyd meddwl wedi eu cefnogi e.e. trwy adfocatiaeth, eiriolaeth, cyngor incwm etc i oresgyn rhwystrau i waith. Bydd 10 o rai efo problemau iechyd meddwl wed manteisio o hyfforddiant lefel 1 a 2 Open College Network. | Dileu'r gair "adfocatiaeth". "Eiriolaeth" yno beth bynnag. | **Cwblhawyd, bydd yn y fersiwn a gyhoeddir.** |
| **37** | Graff rhif 3 ar y dudalen | Teitl y graff: Canran y cyfeiriadau i'r Gwasanaeth Plant a Theuluoedd sy'n cael eu hail-gyfeirio o fewn 12 mis. | Newid "Nifer" i %. | **Cwblhawyd, bydd yn y fersiwn a gyhoeddir.** |
| **39** | Add.03 | Trawsnewid Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifanc gyda phroblemau Ymddygiad - Cryfhau'r ddarpariaeth i blant a phobl ifanc bregus a'r rhai gyda phroblemau ymddygiadol o fewn ysgolion prif lif. | Angen tynnu sylw yn benodol at y sector Uwchradd yn y Gwelliant a'r Deilliant yma. | **Cwblhawyd, bydd yn y fersiwn a gyhoeddir.** |